# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol - Nos Fercher 11.05.22 – 7.00yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Keith Carroll (KC), Huw Davies (HD), Jane Lawrence (JL), Nicola Tabberer (NT), Jenny Warne (JW), Geraint Edwards (GE), David Griffiths (DG), Ian Williams (IW), Debbie Taylor-Bond (DTB) (Clerk), Louise Hughes (LH) Cynghorydd Sirol

**Ymddiheuriadau:** Geraint Micah (GM), Francesca Pridding (FP), Jenny Warne (mynychodd rhan or cyfarfod)

1. **Swyddi newydd am 2022/23**

**Cadeirydd:** Keith Carroll → **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio**: Ian Williams
**Is-gadeirydd:** David Griffiths → **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio**: Ian Williams
**Cynrychiolwyr:** **Un Llais Cymru:** i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. **Pwyllgor Y Ganolfan:** David Griffiths
**Pwyllgor Pîg yr Allt:** Geraint Edwards **Heddlu:** Ian Williams.

2. **Croeso'r Cadeirydd**:

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr etholedig, ac aelodau'r cyhoedd a oedd wedi mynychu'r Cyfarfod Blynyddol. Mynegodd ei ddiolch i'r aelodau oedd wedi gadael ag i'r Cynghorwyr newydd. Diolchodd hefyd i Buddug Jones, am y rhodd hael i brynnu offer ffitrwydd i'r cae chwarae yn Llwyngwril.
**Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr aelodau i gyd yn un grŵp, wedi eu hethol i gynrychioli ac i wella Cymuned Llangelynnin.**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ffurfleni "Datganiad Derbyn Swydd" wedi eu llofnodi gan yr holl Gynghorwyr a oedd yn bresennol. 'Roedd y Cynghorwr Francesca Pridding wedi cyflwyno ei datganiad wedi ei harwyddo i'r Clerc, cyn y cyfarfod gan gynnwys cadarnhad drwy e-bost.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai manylion cyswllt yr holl Gynghorwyr yn cael eu diweddaru ac ar gael i'r cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad y Cynghorwyr.

Cynigiodd y Cadeirydd fod aelodau'r cyngor cymuned yn adolygu dyddiadau eu cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn y gorffennol, ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd yn Awst ac Ebrill. Ar ôl trafodaeth, cytunwyd mai'r misoedd pan na fyddai'r Cyngor yn cyfarfod yn 2022/23 fyddai <u>Mis Awst a Mis Ionawr</u>. Byddai hyn yn gymorth i gwblhau'r gwaith papur ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan fod Mis Ebrill yn gyffredinol yn fis pwysig ar gyfer paratoi gwaith papur yr Archwiliadau a chau'r cyfrifon blynyddol. **Cynnig:** Huw Davies **Eilio:** Geraint Edwards

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **09.03.22** fel rhai cywir.
**Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Keith Carroll

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.03.22)**:

- **Cyfrif Banc y Cyngor Cymuned** - mae angen symud ymlaen â threfniadau i gau y cyfrif HSBC a defnyddio y cyfrif Nat West.
**I'w weithredu gan:** DTB - i gychwyn y broses o gau cyfrif HSBC a throsglwyddo'r holl arian i gyfrif Nat West - sef y cyfrif fydd y Cyngor Cymuned yn ei ddefnyddio yn 2022/23.
- **Historypoints - Cod QR** – mae plac newydd wedi ei dderbyn.
**I'w weithredu gan:** GE a KC i osod plac newydd ar y safle.

5. **<u>Gohebiaeth</u>:**

- Bocs y Peiriant Diffibriliwr - Alan Wilde wedi cysylltu â'r Cyngor ynghlyn ag amnewid cabinet y diffibriliwr yn Llwyngwril. 'Gan fod yr hen gypyrddau i gyd wedi rhydu ac angen eu newid, cynigioddd Mr Wild osod diffibriliwr Llwyngwril mewn cwpwrdd newydd plastig cyfansawdd, pan fydd o yn adnewyddu y lleill yn yr ardal.
  Bydd hyn yn rhad ac am ddim, gan arbed £100 ar y costau ffitio.
  **Cynnig:** Huw Davies **Eilio:** Ian Williams

- Derbyniwyd cais gan Georgina O'Sullivan am ganiatâd i ddefnyddio'r Cae Chwarae ar gyfer "Parti yn y Parc" i ddathlu Jiwbilî'r Frenhines, ar ddydd Sul Mehefin 5ed 2022. Cytunodd y Cynghorwyr fod llawer o waith wedi ei wneud i drefnu'r digwyddiad hwn. Cefnogwyd y cais gan y Cynghorwyr i gyd. **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Huw Edwards.
  **I'w weithredu gan:** DTB i hysbysu Georgina nad oedd gwrthwynebiad i'r parti, a mynegi diolch y Cyngor Cymuned iddi. Dylai'r llythyr hefyd nodi'r angen i sicrhau bod unrhyw sbwriel yn cael ei glirio ar ddiwedd y digwyddiad.

- Arolwg Cenedlaethol gan Archwiliad Astudiaethau Cyngor Cymru. Arolwg yn edrych ar Gydnerthedd Cymunedol a gynigir gan Gyngor Gwynedd wedi ei dderbyn. Ymatebion i'w cyflwyno erbyn y 1af o Orffennaf.
  **I'w weithredu gan:** DTB i anfon copi o'r arolwg i bawb.

6. **<u>Materion Cynllunio</u>:** Dim wedi eu derbyn.

7. **<u>Ariannol</u>**:

- **<u>Trefniadau Adolygu ac Archwilio Cyfrifon y Cyngor Cymuned 2021/22</u>**

**a)** Cyflwynwyd cyfrifon diwedd y flwyddyn 2021/22. Cymeradwywyd ac arwyddwyd y rhain gan y Cadeirydd a'r Clerc.
**b)** Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2021/22 a'u llofnodi yn barod ar gyfer yr Archwiliad Mewnol gan Gyngor Gwynedd. Cadarnhawyd penodiad Archwilydd Cyngor Gwynedd fel archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2021/22 y Cyngor Cymuned ac Archwilydd Cyffredinol Cymru fel Archwilydd Allanol y Cyngor.
Darparwyd Datganiad Llywodraethu ar y ffurflen flynyddol i'r holl aelodau ac fe'i chymeradwywyd yn y cyfarfod.
**Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Geraint Edwards
**c)** Derbyn y Praesept - Cadarnhawyd bod rhandaliad cyntaf y praesept ar gyfer 2022/23 wedi ei dderbyn i gyfrif Nat West.
**d)** Cais am ad-daliad TAW – 2021/22 - Cadarnhawyd bod y ffurflen hawlio ad-daliad TAW wedi ei chyflwyno i HMRC.

- **<u>Gwybodaeth Ariannol 2022/23</u>**

**e)** Darparwyd Adolygiad Ariannol yn seiliedig ar incwm a gwariant a ragwelwyd am 2022/23. Bydd yw'r incwm yma gyfer 2022/23 ddim digon i dalu am yr eitemau yr hoffai'r Cyngor eu cefnogi. Felly, cynigiwyd defnyddio peth o'r balans a garwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol i gynorthwyo i ariannu'r cynnydd yng nghyflog y Clerc, rhoddion i'r Ganolfan a Mynwenti Llangelynnin, â'r cabinet diffibriliwr newydd.
**Cynnig:** Ian Williams **Eiliwyd**: Geraint Edwards
**f)** Cyflog a chosta'r Clerc: Cynnydd o 2.5% i'w ychwanegu at gyflog y Clerc ar gyfer 2022/23.
**Cynnig:** Ian Williams **Eiliwyd:** Geraint Edwards
**g)** Rhoddion ac anfonebau: Cytunwyd i ystyried rhoddion i'r Ganolfan (£1,000) a'r mynwenti (£500.00) am y flwyddyn ariannol 2022/23.
**Cynnig:** Ian Williams **Eiliwyd:** Geraint Edwards
**h)** Polisi Yswiriant 2022/23: Cytunwyd i dderbyn y cynnig o "bolisi yswiriant tair blynedd" gydag yswiriant BHIB yn arbed cyfanswm o £106.89 ar y premiwm a ddyfynnwyd eleni. Bydd y gost yn £23.23 yn rhatach na'r llynedd.
**Cynnig:** Ian Williams **Eiliwyd:** Huw Davies

- **<u>Adroddiad Ariannol</u>**

**i)** Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
**j)** Nodwyd fod camgyfrifiad ar Adroddiad Ariannol Mis Mawrth 2022, sef methu'r costau banc o £5.00. Nodwyd hyn ar y ffurflen ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

- **<u>Derbyniadau</u>**
  - **14.03.22 – rhodd i brynu offer ffitrwydd i'r Cae Chwarae ……………………£4,000.00**
- **<u>Taliadau</u>**
  - 22/03/22 – Siec 100824 - cynnal a chadw'r llwybrau ………………………………… **£ 259.20**
  - 23/03/22 – Siec 100822 - gwaith trydanol ar oleuadau y coed nadolig ……… **£ 89.21**
  - 28/03/22 – Siec 100823 - cynnal a chadw'r cae chwarae …………………………… **£1,080.00**

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr</u>:** Dim

**9. <u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u> – Louise Hughes:**
Cadarnhaodd Louise ei bod wedi siarad gyda'r Prif Weithredwr ynglyn a'r wal derfyn ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog ag ei bod yn trefnu ymweliad safle.
Mae Louise wedi reportio fod "Japanese Knowtweed" ar ochr y ffordd ger Llwyngwril.
Cadarnhaodd fod Ward y Cynghorydd Sir wedi newid nawr i A**rthog a Llangelynnin.**

**10. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

- **Cynghorydd David Griffiths wedi datgan ddiddordeb, ni chymerodd ran yn y drafodaeth ac aeth i sefyll ochr allan. Ffurflen buddiant personol wedi ei chwblhau ganddo. I'w weithredu gan: DG.**

**a)** Dyfyniadau ar gyfer torri gwair y Cof Golofn (2022). Derbyniwyd dau ddyfynbris ond derbyniwyd cynnig David Griffiths. **Cynnig:** Huw Davies **Eiliwyd:** Geraint Edwards.
**I'w weithredu gan:** DTB i anfon llythyrau at y cynigwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.

- **Ail-ymunodd y Cynghorydd David Griffiths â'r cyfarfod.**

**b)** Mae cyflwr y ramp i'r traeth ar y llwybr ger Mynwent y Crynwyr yn dal mewn cyflwr gwael er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud. **I'w weithredu gan:** DTB i gysylltu â Chyngor Gwynedd.
**c)** Mainc newydd i'w gosod yn Rhoslefain. **I'w weithredu gan:** GE/HD/KC
**d)** Cyflwr wal gynnal y ffîn gyferbyn â Gwastadgoed. **I'w weithredu gan:** DTB i gysylltu ag Adran Briffyrdd, CG.
**e)** Darparu llinellau melyn dwbl ger y siop – **I'w weithredu gan** DTB i gysylltu â CG i gael y diweddara ar y sefyllfa.
**f)** Chwistrellu Chwyn - **I'w weithredu gan:** DTB i gysylltu â Chyngor Gwynedd.
**g)** Cyfathrebu – tudalen Facebook ar gyfer y Cyngor Cymuned. Cynigiodd David Griffiths adolygiad - i edrych ar ddarparu tudalen Facebook i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r Cyngor Cymuned. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
**h)** Priffyrdd Cyngor Gwynedd – Cynnig gofyn i'r Adran Briffyrdd drefnu ymweliad safle a'r pentref yn flynyddol i gerdded o amgylch y pentref i edrych ar faterion Priffyrdd. **I'w weithredu gan:** DTB i gysylltu â Chyngor Gwynedd.
**i)** Wal Derfyn Friog – Gwahoddiad i Network Rail fynychu'r cyfarfod nesaf ym Mis Mehefin.
**I'w weithredu gan -** DTB i gysylltu â Network Rail.
**j)** Cynrychiolaeth ar Fwrdd y Llywodraethwyr ar gyfer Ysgol Llanegryn.
**I'w weithredu gan -** DTB i gysylltu ag Adran Addysg, Cyngor Gwynedd i weld os allwn anfon cynrychiolydd o'r CC.
**k)** Rheoliadau a chyngor ar ddefnyddio Zoom/Teams yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned.
**I'w weithredu gan -** DTB i wneud ymholiadau ar y canllawiau diweddaraf.
**l)** Canlyniadau ac amcanion Cynghorau Cymuned ar gyfer 2022/23 –
**I'w weithredu gan -** pob aelod i ystyried amcanion y Cyngor am y flwyddyn nesaf a'u trafod yn y cyfarfod nesaf.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 08.06.22 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril</u>

**<u>Arwyddwyd gan y</u> Cadeirydd ………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**